# Darganfyddiadau Allweddol o'r Gwerthusiad o Raglen Feithrin Pori Drwy Stori (Llafaredd), 2018-19

Pori Drwy Stori

## Ynglŷn â Rhaglen Feithrin Pori Drwy Stori

Rhaglen ddwyieithog ydy Rhaglen Feithrin Pori Drwy Stori (RhFPDS) sydd wedi'i dylunio i gefnogi deilliannau llafaredd ac ymgysylltiad rhieni â dysgu ar gyfer plant rhwng 3-4 oed yng Nghymru, yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llafaredd plant trwy rannu rhigymau a chaneuon, a thrwy ddarllen er pleser a rhannu llyfrau. Mae plant sy'n cymryd rhan yn RhFPDS yn derbyn dwy set o adnoddau, y ddwy wedi'u dylunio i'w dilyn dros hanner tymor, yn y cartref yn ogystal ag yn y Feithrinfa.



*Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru sy'n ariannu RhFPDS.*

Nod '**Mae'n amser rhigwm**' ydy cynyddu'r gweithgarwch rhannu rhigymau rhwng plant a rhieni/ gofalwyr.




Nod '**Sôn am lyfr**' ydy cynyddu gweithgaredd rhannu llyfrau'n rhyngweithiol ac, yn benodol, siarad am bethau sy'n gysylltiedig â rhannu llyfrau rhwng plant a rhieni/ gofalwyr




Mae **llafaredd** yn cynnwys **siarad, gwrando, trafod a chydweithredu**. Mae hefyd yn cynnwys sgiliau fel datblygu hyder a gallu i ganolbwyntio, ac yn cysylltu'n agos â datblygiad cynnar lleferydd ac iaith.

Nod RhFPDS ydy cefnogi nifer o ddeilliannau llafaredd penodol, gan gynnwys cynyddu mwynhad plant a'u gallu i wrando ac ymuno â rhigymau, caneuon, llyfrau a straeon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hefyd yn cynyddu adnabyddiaeth plant o rhythm ac odl, eu geirfa, eu hyder i ymuno â gweithgareddau a'u gallu i siarad a mynegi eu hunain.

Nod RhFPDS oedd **cael y rhiant/ gofalwr i ymgysylltu â dysg eu plentyn** gan ganolbwyntio ar **gynyddu'r cyswllt rhwng y cartref a'r Feithrinfa** a chefnogi cysylltiad cryf rhwng y cartref a'r ysgol/lleoliad. Roedd hefyd yn anelu at **annog ymddygiadau yr oedd yn hysbys eu bod yn cefnogi deilliannau llafaredd** (e.e. rhannu rhigymau, caneuon, llyfrau a straeon yn amlach; ailddarllen yr un llyfrau; siarad am lyfrau) a chynyddu mwynhad o'r gweithgareddau hyn.

**I gael gwybod mwy am raglen Pori Drwy Stori, ewch i www.booktrust.org.uk/poridrwystori neu cysylltwch â thîm BookTrust Cymru yn booktrustcymru@booktrust.org.uk**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

## Y prif ddarganfyddiadau o'r Gwerthusiad

*Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno negeseuon allweddol o'r gwerthusiad annibynnol o Raglen Feithrin Pori Drwy Stori (RhFPDS), a gynhaliwyd gan Iaith a Wavehill rhwng mis Hydref 2018 a mis Medi 2019, a'u goblygiadau ar gyfer datblygu'r rhaglen.*

Roedd rhieni/ gofalwyr o'r farn bod yr **adnoddau yn hwyl ac yn ddiddorol i blant, yn hawdd i'w defnyddio ac yn ddifyr**. Roedd yr adnoddau'n canolbwyntio'r dysgu ar y plentyn.

Roedd y rhaglen yn **fwy effeithiol pan roedd dull yr ysgolion a'r lleoliadau o weithredu wedi'i strwythuro a'i gynllunio**, naill ai ar lefel ysgol/ lleoliad cyfan (e.e. gyda chysylltiadau â'r Cynllun Datblygu Ysgol), neu fel rhan o waith cynllunio'r Cyfnod Sylfaen a/ neu'r ystafell ddosbarth.

Roedd y rhaglen **wedi llwyddo i ddatblygu ymgysylltiad rhieni mewn ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys y rheini lle nad oedd y rhaglen eto wedi'i sefydlu**. Roedd ymarferwyr wedi datblygu ffyrdd newydd a mwyfwy effeithiol o gyfathrebu â rhieni/ gofalwyr ac o ddatblygu cysylltiadau rhwng yr ysgol/ lleoliad a'r cartref.

**Roedd cysonder a chyfathrebu parhaus yn allweddol**: roedd y rhieni/ gofalwyr a ddywedodd eu bod yn siarad yn aml ag ymarferwyr am y rhaglen yn fwy tebygol o nodi bod yna gynnydd o ran ymgysylltiad rhieni. Roedd y rhaglen wedi galluogi cyfathrebu dwyffordd rhwng y cartref a'r ysgol/lleoliad, ac yn **gymorth i ymarferwyr gael cipolwg ar amgylcheddau dysgu cartrefi**.

Dangosodd ymatebion rhieni/ gofalwyr i'r arolwg **gynnydd mewn sgiliau'n ymwneud â llafaredd**, ac yn enwedig mewn **cefnogi plant i ddatblygu sgiliau iaith fynegiannol ac adnabod rhigymau**. e.e. gallu plant i fynegi eu hunain yn glir wrth siarad am lyfrau, adnabod rhythm ac odl, gallu cynyddol i siarad a mynegi eu hunain a gwybod am wahanol rigymau a/ neu ganeuon. Disgrifiodd ymarferwyr **effeithiau positif ar hyder plant, datblygiad eu geirfa, eu gallu i drin rhigymau a mwynhau odli**.

Yn yr arolwg rhieni/ gofalwyr, **mae'n ymddangos bod deilliannau llafaredd wedi bod yn gryfach i fechgyn ac i blant nad ydyn nhw'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim** (PYaD). Fodd bynnag, nododd ymarferwyr yn aml werth penodol yr adnoddau i blant o gefndiroedd dan lai o fantais. Gellid gwneud mwy o waith i nodi a rhannu'r arfer sy'n gallu cefnogi llafaredd bechgyn yn benodol, ac i nodi sut i wella canlyniadau i blant PYaD.

Darganfu'r arolwg bod yna **gynnydd mewn rhai ymddygiadau rhieni/ gofalwyr**: darllen yr un llyfr drosodd a throsodd; siarad am y llyfrau'n amlach; darllen llyfrau a rhannu rhigymau yn y Gymraeg yn amlach; a darllen llyfr am hwyl. **Yn ôl rhieni/ gofalwyr, RhFPDS oedd i'w diolch am y cynnydd hwn**.

Helpodd y rhaglen **ymarferwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o fuddion rhigymau a chaneuon.** Dywedodd ychydig dros hanner yr ymarferwyr a gyfwelwyd (58%) eu bod yn defnyddio'r rhaglen yn benodol i gefnogi deilliannau llafaredd. Mae'r gwerthuswyr yn argymell bod ymarferwyr yn cael mwy o gefnogaeth i ymwneud mwy â ffocws RhFPDS ar lafaredd, ac i gyfleu pwysigrwydd llafaredd, rhannu rhigymau a chaneuon, rhannu llyfrau a darllen er pleser i rieni/ gofalwyr.

Roedd **y ffaith bod y rhaglen yn ddwyieithog yn cefnogi datblygu sgiliau iaith Gymraeg**, yn enwedig i blant nad ydyn nhw o gefndir Cymraeg (mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg). Roedd hefyd yn cefnogi ymarferwyr nad oedden nhw'n orhyderus yn eu Cymraeg, yn ogystal â rhieni/gofalwyr a phlant.

Roedd **model rhaglen RhFPDS yn ddefnyddiol wrth helpu i gyflawni nodau a deilliannau** h.y. adnoddau o ansawdd uchel i blant i'w defnyddio dros gyfnod o amser yn yr ysgol/ lleoliad ac yn y cartref; strwythur wedi'i argymell ar gyfer defnyddio'r rhaglen gyda hyblygrwydd i ymarferwyr ei haddasu i'w hanghenion lleol; cynnig 'i bawb' h.y. adnoddau ar gyfer pob plentyn cymwys yn yr ysgol/ lleoliad.

Mae'r rhaglen yn **hynod addas yn y cyd-destun addysgol yng Nghymru** oherwydd ei bod yn cefnogi datblygiad llafaredd a llythrennedd, dwyieithrwydd, ac ymgysylltiad rhieni/ gofalwyr â dysg eu plentyn, oll o fewn cyd-destun ethos a dull y Cyfnod Sylfaen o weithredu.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government